

Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Mehefin 4ydd 2024 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of Penbryn Community Council Meeting held on Tuesday, June 4th 2024 at Penbryn Memorial Hall.*

Yn bresennol/*Present* – Cynghorwyr/*Councillors* Delfryn Owens, Caerwyn Owen, Gwyn James, Melva Phillips, Jonathan Rees(Cadeirydd/*Chairperson*), Gareth Evans, Teifi Davies, Barri Davies.

1 Ymddiheuriadau/Apologies

Cynghorwyr/*Councillors* Walwyn Jones, William Anwyl, Elen Mathias.

2 Materion Personol/Personal Matters

Dim byd i'w gofnodi/*Nothing to record.*

3 Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a'r Cyfarfod Misol/Minutes of Annual General Meeting and Monthly Meeting – 7/5/24

Wedi darllen cofnodion y Cyfarfod Blynnyddol, cynigiwyd gan Delfryn eu bod yn gywir a'i eilio gan Gareth. Yn achos y Cyfarfod Misol, derbyniwyd cynnig gan Caerwyn eu bod yn ddilys a'i eilio gan Gwyn.

Having read the AGM minutes, it was motioned by Delfryn to be deemed correct and seconded by Gareth. As regards the monthly meeting minutes, Caerwyn proposed to accept them and seconded by Gwyn.

4 Materion yn Codi/Matters Arising

i) Terfyn Cyflymder 20mya/20 mph *Speed Restriction*

Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn copi o adroddiad terfynol arolwg o safbwyntiau Cyngorau Cymuned Ceredigion ynghylch y polisi uchod. Yr oedd Penbryn ymhlith 22 o Gynghorau a ymatebodd i'r arolwg. Nodwyd y bydd angen ail-gyflwyno ein safbwynt rywbryd yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru I gynnal adolygiad o'r polisi hwn. Cytunodd y Clerc i gysylltu ag Elin Jones er mwyn gofyn at bwy y dylid anfon unrhyw ohebiaeth. Ychwanegodd Gwyn y byddai mewn cyfarfod zoom gyda'r Asiantaeth Priffyrdd y diwrnod canlynol. Mynegodd ei awydd i godi pwynt ynghylch diogelwch cyffordd Gogerddan a'r llinellau gwyn dwbwl ar hyd yr A487.

The clerk notified the members that he had received a copy of the survey of the opinions of Ceredigion Community Councils regarding this matter. Penbryn was among 22 Councils who responded to the survey. Due to the Welsh Government's decision to review this policy, it will be necessary to re-submit our recommendations. The Clerk agreed to contact Elin Jones in order to enquire to whom to send the correspondence. Gwyn added that he would be in a Zoom meeting the following day with the Highways Agency. He expressed his intention to raise the matter of the safety of Gogerddan Junction and the double white lines on the A487.

ii) Meinciau Tresaith/Tresaith Benches

Diolchwyd i Melva am ei gwaith arbennig wrth gasglu gwybodaeth ynghylch cost gwahanol fathau o feinciau. Nodwyd bod gohebiaeth Pwyllgor Lles Tresaith yn crybwyll bod angen newid dwy fainc ar lan y môr. Gyda detholiad o amrywiol feinciau i'w tafoli, daeth yr aelodau i benderfyniad ynghylch pa fainc i'w dewis ar gyfer y safle. Ond cyn ei harchebu, penderfynwyd bod angen mesur hyd a lled y sylfaen goncrid yn gyntaf, er mwyn sicrhau eu bod yn addas.

Dyma'r Fainc a ddewiswyd o ran egwyddor –

CUBE BACKED BENCH – 1.5M – DU/BLACK

£204+ TAW/VAT CLUDIANT/DELIVERY £70+ TAW/VAT am 1 neu 2/for 1 or 2.

The members thanked Melva for her work in garnering information regarding the cost of various benches. It was noted that Tresaith Welfare Committee had applied for two replacement benches by the seashore. With various options to consider, the members opted in principle for the above mentioned bench. But first of all, it was decided to measure the concrete foundation for these benches, in order to ensure their suitability.

iii) **Comisiwn Ffiniau Cyngorau Cymuned Ceredigion/Ceredigion Community Councils Boundaries Commission**

Nododd y Clerc fod sylwadau'r Cyngor ynghylch y newidiadau posibl i ffiniau'r Cyngorau wedi'u derbyn a'u bod yn rhan o'r drafodaeth ehangach ar y mater yn genedlaethol. Cafwyd trafodaeth frwd ac adeiladol ar y pwnc wrth ategu'r sylwadau a gyflwynwyd i'r Comisiwn Ffiniau.

The Clerk noted that the Council's recommendations regarding the possible changes to Community Councils' boundaries have been received and submitted to be discussed at a higher national level. A constructive discussion ensued on the matter which confirmed the validity of our recommendations.

5 **Cyllid/Finance**

i) **Balans y Cyfrif/Account Balance**

Balans Blaenorol/Previous Balance - £11308.61.

Taliadau a gymeradwyd/Approved payments - £499.99.

Balans Newydd/New Balance - £10808.62.

ii) **Anfoneb Parish Online Invoice**

Derbyniwyd anfoneb annisgwyl gan y Clerc oddi wrth Parish Online yn ddiweddar am gyfanswm o £86.40. Yn dilyn ymholiadau gan y Clerc, daeth yn amlwg fod yr anfoneb dan sylw yn gysylltiedig â'n polisi yswiriant. Yr oedd y cwmni yn talu'r gost yn llawn ar gyfer y feddalwedd fapio hon yn ystod y flwyddyn gyntaf. Fodd bynnag, am nad ydym yn defnyddio'r cyfrwng hwn, maent wedi cytuno i ddiddymu'r taliad hwn.

An unexpected invoice was received by the Clerk from Parish Online recently for the amount of £86.40. Following enquiries by the Clerk, it became evident that it derived from our insurance policy. The company paid the full amount for this mapping software for the first year. However, as we aren't using this medium, they have agreed to cancel this payment.

iii) **Llofnodwyr Swyddogol i'r Cyfrif Banc/Official Signatories for Bank Account**

Yr oedd y Clerc wedi ceisio clustnodi Jonathan i fod yn llofnodwr swyddogol gyda **Bank of Scotland** yn ddiweddar ond heb fod yn sicr bod y banc wedi cwblhau'r broses. Cadarnhaodd Delfryn fod y Banc wedi bod mewn cysylltiad ag ef, ond nad oedd Jonathan wedi clywed oddi wrthynt. Cytunodd y Clerc i wneud ymholiadau pellach gyda'r Banc.

*The Clerk had attempted to designate Jonathan as an official signatory with **Bank of Scotland** recently but with no certainty that the Bank had completed the process. Delfryn confirmed that the Bank had been in contact with him, but Jonathan had yet to hear from them. The Clerk agreed to make further enquiries with the Bank.*

- iv) **Cyflog y Clerc/Clerk's Salary**
Yn dilyn trafodaeth ynghylch cyflog y Clerc cytunodd yr aelodau'n unfrydol ar gyflog misol. Gyda chytundeb 13 awr y mis ar raddfa o £15 yr awr, cytunwyd ar gyflog misol o £195. Ar adegau prysurach a fyddai o bosibl yn arwain at oriau ychwanegol, cytunwyd y byddai'r Clerc yn cadw cofnod o'r oriau a weithiwyd.
Following a discussion regarding the Clerk's salary the members unanimously agreed on a monthly salary. With a 13 week contract on the scale of £15 per hour, it was agreed on a monthly salary of £195. During busier periods which might lead to additional hours, it was agreed that the Clerk would keep a record of hours worked.

6 Cynllunio/Planning

- i) A240386 Cefnllaethdre, Tanygroes
DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

7 Gohebiaeth/Correspondence

- i) **Amserlen Newydd y T5/New Timetable for T5**
Dosbarthodd y Clerc fanylion am amserlen newydd y gwasanaeth bws T5 a fydd yn dechrau y mis hwn. Y gwahaniaeth pennaf yw mai bob yn ail fws yn unig fydd yn mynd i Gei Newydd ac Aberporth yn y dyfodol. Mynegodd Gareth fod hyn yn golygu eu bod yn dychwelyd i'r drefn flaenorol o gynllunio'r gwasanaeth.
The Clerk distributed details regarding the latest timetable for the T5 bus service which will commence this month. The main difference is that only every other bus will serve New Quay and Aberporth in the future. Gareth expressed his recollections that this would mean returning to the previous arrangements of planning this service.
- ii) **Cais am gymorth ariannol gan Bwyllgor Neuadd Goffa Penbryn/Request for financial assistance from Penbryn Memorial Hall Committee**
Yn yr ohebiaeth nodwyd yr angen am wella cyfleusterau'r Neuadd megis y gegin, y tai bach a'r cyntedd cefn. Mae angen gwneud gwaith paentio pellach ac mae llwyddyn yn dechrau ymddangos ar rai o'r waliau. Mynegodd Teifi a Caerwyn ddiddordeb am eu bod yn aelodau o Bwyllgor y Neuadd. Yr oedd gweddill yr aelodau yn gefnogol i'r cais a chynigiodd Delfryn ein bod yn cyfrannu £2000 tuag at y gost. Eiliwyd hyn gan Barri.
In the correspondence it noted the need to improve the Hall's facilities namely the kitchen, toilets and the back corridor. The building needs a fresh layer of paint and some mildew is beginning to appear on some of the walls. Teifi and Caerwyn declared an interest as they are members of the Hall Committee. The remaining members expressed their support and Delfryn proposed that we contribute £2000 towards the cost. It was seconded by Barri.

8 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- i) **Y Garafan ger Waunmeindy/The Caravan at Waunmeindy**
Gadawyd carafan ar hewl uchaf Waunmeindy yn ddiweddar. Diolchwyd i aelodau'r Cyngor a ymchwiliodd i'r dirgelwch hwn. Mae'r Cyngor Sir bellach wedi gosod gorchymyn 6 wythnos ar y garafan i'w symud o fewn y cyfnod hwnnw. Ond yn y cyfamser, mae rhyw gerbyd arall wedi bwrw mewn iddi.
A caravan was abandoned on the upper road at Waunmeindy recently. The members who made enquiries were thanked for their diligence. The County Council has

imposed a statutory removal order for the caravan to be removed within 6 weeks. In the meantime, however, another vehicle has collided with the caravan.

9 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Gorffennaf 2ail 2024 am 7.30 y.h.

The next meeting will be held on Tuesday July 2nd 2024 at 7.30 p.m.